

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 5ed Chwefror, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Rhodri Jenkins (yn y Gadair); Brython Davies, Eluned Evans, Jane Hopkins, Phil Lloyd, James Raw, Cyng. Rhodri Davies

1. YMDDIHEURIADAU:

Alun Jenkins, Elise Powell.

2. COFNODION 23ain Hydref, 26ain Tachwedd, 2014 a'r 8fed Ionawr, 2015

Methwyd a chadarnhau y cofnodion uchod mewn cyfarfodydd blaenorol gan nad oedd digon o aelodau perthnasol yn bresennol i wneud hynny tan y cyfarfod hwn. Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Toiledau Pontarfynach

Derbyniwyd ymateb wrth Gyngor Sir Ceredigion i ymholiad blaenorol paham fod y Toiledau ym Mhontarfynach ar gau dros y Gaeaf. Mae'r Gyngor Sir yn cau toiledau dros y Gaeaf gan nad yw'n gost effeithiol i'w cadw ar agor. Cyfeiriodd yr ymateb bod ymholiadau wedi cael ei gwneud gyda busnesau lleol ym Mhontarfynach i ymholi a fyddai modd dod i ddealltwriaeth pe medrid defnyddio cyfleusterau ei busnesau ar gyfer y cyhoedd dros y Gaeaf ond nid oedd diddordeb gan y busnesau lleol. Nodwyd bod yna gyfle i'r Gyngor Bro gymryd cyfrifoldeb am y toiledau ar gost oddeutu £3,657 dros fisoedd y Gaeaf. Trafodwyd ond cytunwyd fod y swm yn rhy uchel i'r Gyngor Bro. Cytunwyd i ymholi am brisiau ar gyfer toiledau symudol (porta loos) yno.

4. GOHEBIAETH

(a) Cafwyd ymholiad gan Gyngor Bro Trawsgoed i weld a oes diddordeb mewn trefnu cyfarfod ar y cyd gyda cynghorau bro cyfagos i drafod problemau sy'n peri gofid o fewn y gymuned sy'n cael eu cyfeirio at y Gyngor Sir.

(b) Aelodau Un Llais Cymru.

Penderfynwyd i dalu tal aelodaeth i Un Llais Cymru am y flwyddyn 2015/16, swm o £68.00.

(c) Cartrefi Gofal Preswyl y Sir

Deallir fod Gyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ynghylch dyfodol darpariaeth cartrefi gofal preswyl y Sir ac y cyhoeddwyd ddogfen ymgynghori gyda'r dyddiad cau am sylwadau ar yr 11eg o Fawrth, 2015. Gwahoddwyd ddau aelod o'r Gyngor Bro i fynychu cyfarfod gyda Swyddogion y Sir i amlinellu cynnwys y ddogfen yng Nghanolfan Rheidol yn Aberystwyth ar nos Fercher 25ain Chwefror am 6.30 y.h.-8.00 y.h.

(ch) Sefydliad y Galon.

Derbyniwyd lythyr personol gan Glan Davies, yn diolch i aelodau'r Gyngor Bro am ei rhodd hael eleni eto tuag at Sefydliad y Galon yn lleol.

(d) Derbyniwyd swm o £28.50 am arian ail-gylchu am chwarter 2 (Gorffennaf-Fedi 2014).

5. UNRHYW FATER ARALL

- (a) Adroddodd y Cyng. Rhodri Davies ei fod wedi derbyn cwynion gan drigolion yr ardal fod codau post nifer o dai o fewn yr ardal yr un peth a bod cwmnïau dosbarthu yn cael trafferth i chwilio ambell i dy. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r Swyddfa Bost i ddatgan pryder am y sefyllfa.
- (b) Cyfeiriodd hefyd at bryder arall a dderbyniodd gan drigolyn o Gwmystwyth yn cyfeirio fod y Post Brenhinol yn dileu casglu'r post am 3.30 y.p. yng Nghwmystwyth. Bydd y casgliad yn cael ei wneud am 12.00 amser cinio o hyn ymlaen, h.y. bydd y postmon sy'n dosbarthu post yn casglu'r post o Gwmystwyth yr un adeg. Nid yw hyn yn dderbyniol, gan pe byddai unigolyn angen postio ymateb gyda'r troad i ohebiaeth a dderbyniwyd yn y post y diwrnod hwnnw nid yw'n bosibl i'r ymateb gael ei gasglu o Gwmystwyth hyd y diwrnod wedyn. Y Clerc i gysylltu gyda'r Post Brenhinol i ddatgan gwrthwynebiad i'r trefniant.
- (c) Cyfeiriodd Eluned Evans at sefyllfa beryglus y ffordd ger Dolau, Rhos-y-gell a'r ffaith fod ambell i ddamwain wedi digwydd yno yn ddiweddar ar y troeon cas. Derbynnir mai'r ffaith fod cerbydau yn teithio'n gyflym sy'n gyfrifol am mwyafrif y damweiniau a nad yw'r gyrwyr yn sylweddoli pa mor beryglus yw'r troeon. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn iddynt ddodi arwyddion 'Araf' ar y troeon yma.
- (ch) Yn dilyn gwybodaeth gan Brython Davies, y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ddatgan y ffaith fod tyllau mawr yn y ffordd sydd angen eu llenwi ar hyd y rhewl Rhos Perian, Cwmystwyth.
- (d) Adroddodd James Raw at ddarn peryglus o'r ffordd heibio Tyllwyd, Cwmystwyth tuag at ffordd Powys/Ceredigion. Mae dwr yn cronni ar draws y ffordd ac yn rhewi'n galed adeg tywydd gaeafol. Mae yna ddarn o tua 25 medr sy'n achosi trafferthion mawr i deithwyr.

6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 5ed Mawrth, 2015 yn Ysgol Mynach.